Profion Llif Unffordd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

Mewn ymateb i Ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ynghylch gofalwyr di-dâl ac argaeledd profion llif unffordd, mae gan Gyngor Dinas Casnewydd becynnau profi ar gael i'r rhai sy'n gofalu am bobl yr ystyrir eu bod yn fregus yn glinigol. Mae hyn yn cynnwys cyflyrau cronig y galon, yr arennau, yr iau neu gyflyrau niwrolegol, derbynwyr trawsblaniad organau, canserau penodol, cyflyrau anadlol difrifol, clefydau prin, oedolion â syndrom Down a phobl ar therapïau gwrthimiwnedd sy'n cynyddu'r risg o haint.

Os ydych yn gofalu am rywun bregus yn glinigol, mae pecynnau ar gael drwy **ffonio Cyngor Dinas Casnewydd ar 01633 235650** neu **e-bostiwch:** community.connectors@newport.gov.uk. Cofiwch y gofynnir ychydig o gwestiynau i chi am y person rydych yn gofalu amdano gan yr aelod o staff.

Mae brechlynnau'n llwyddiannus iawn o ran amddiffyn pobl rhag mynd yn sâl iawn yn y rhan fwyaf o achosion ond mae yna **grŵp ehangach o bobl y mae eu cyflyrau'n golygu eu bod mewn mwy o berygl** , ond nid ydynt yn cael eu hystyried yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol. Os ydych o fewn y grŵp hwn, dylech fod yn drylwyr ynghylch dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol ond fel arall dilynwch yr un cyngor â'r boblogaeth gyffredinol. https://llyw.cymru/canllawiau-ar-warchod-ac-amddiffyn-pobl-ddiffinnir-ar-sail-feddygol-fel-rhai-eithriadol-o-agored-i-niwed

Os oes gennych symptomau COVID dylech ddefnyddio prawf llif unffordd. Gellir archebu'r rhain o **gov.uk/order-coronavirus-rapid-lateral-flow-tests** neu drwy ffonio 119. Os byddwch yn profi'n bositif dylech roi gwybod am eich canlyniadau yn **www.gov.uk/report-covid19-result** ac ynysu am o leiaf bum diwrnod llawn nes i chi gael dau ganlyniad negyddol a gymerwyd ddiwrnod ar wahân neu tan ddiwrnod 10.